# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Mai 2020

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCyllid@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar senedd.tv**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14:00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(14:00) (Tudalennau 1 - 3)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2020

## 3 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(14:00-15:00) (Tudalennau 4 - 29)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys

**Papurau ategol:**

Papur 1 - Ymateb gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - Ymateb ariannol i'r pandemig COVID-19 - 24 Ebrill 2020

Papur 2 - Ymateb gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru - COVID-19: Cymorth i Gymru - 9 Ebrill 2020

Briff Ymchwil

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(15:00)

## 5 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

(15:00-15:20)

## 6 Cyllideb Atodol Gyntaf Comisiwn y Senedd 2020-21

(15:20-15:30) (Tudalennau 30 - 40)

**Papur ategol:**

Papur 3 - Cyllideb Atodol Gyntaf Comisiwn y Senedd 2020-21

## 7 Cyllideb Atodol Gyntaf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2020-21

(15:30-15:40) (Tudalennau 41 - 42)

**Papur ategol:**

Papur 4 - Cyllideb Atodol Gyntaf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2020-21

## 8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22: Dull o gynnal gwaith craffu

(15:40-15:50) (Tudalennau 43 - 50)

**Papur ategol:**

Papur 5 - Dull ar gyfer craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Mawrth 2020

Amser: 09.03 - 11.10

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5983

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Alun Davies AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Athro Kent Matthews, Ysgol Fusnes Caerdydd<br>Dr Long Zhou, Ysgol Fusnes Caerdydd<br>Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd<br>Anna Adams, Llywodraeth Cymru<br>Tom Nicholls, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Gemma Gifford (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a’r tystion i’r cyfarfod.

## 2 Papur(au) i’w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd - Treth Tir Gwag - 3 Mawrth 2020

### 2.2 PTN2 - Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) - 4 Mawrth 2020

## 3 Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Sesiwn dystiolaeth 4

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y tystion a ganlyn ar effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: yr Athro Kent Matthews, athro bancio a chyllid Syr Julian Hodge, Ysgol Fusnes Caerdydd; a Dr Long Zhou, myfyriwr ymchwil, Ysgol Fusnes Caerdydd.

## 4 Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Sesiwn dystiolaeth 5

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y tystion a ganlyn ar effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Anna Adams, dirprwy gyfarwyddwr, pennaeth polisi strategaeth treth ac ymgysylltu, Llywodraeth Cymru; a Tom Nicholls, cynghorydd economaidd, Llywodraeth Cymru.

4.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion ynghylch nifer y rhai a gyflogir yn y sector cyhoeddus sy'n talu’r gyfradd uwch o dreth incwm yng Nghymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/RE/1341/20

Llyr Gruffydd AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd.
CF99 1NA

24 Ebrill 2020

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â chymorth COVID-19 i Gymru.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi gweld sefyllfa sy'n symud ac yn datblygu yn gyflym. Felly i sicrhau bod yr aelodau yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf, byddaf yn gwneud datganiad llafar i'r Senedd ar 13 Mai gan dynnu ynghyd y goblygiadau ariannol i Gymru yn sgil effaith COVID-19, a'r ymateb iddo.

Byddaf yn unioni'r pecyn cyfan o addasiadau drwy gyllideb atodol, cyn gynted â phosibl. Yn yr amgylchiadau eithriadol hyn, rwy'n bwriadu cyhoeddi'r gyllideb atodol ar 27 Mai. Rwy'n bwriadu cyflwyno'r cynnig ar 23 Mehefin (neu 24 Mehefin yn amodol ar amserlen y cyfarfod llawn ar yr adeg hynny) i ganiatáu ar gyfer pedair wythnos o graffu (un yn fwy nag sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog). Byddai hyn yn rhoi cydbwysedd derbyniol o amser craffu digonol yn ogystal â rhoi sicrwydd cynnar i randdeiliaid o'r newidiadau i gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru mewn ymateb i COVID-19. Byddwn yn ddiolchgar o gael barn y Pwyllgor am y graddfeydd amser hyn.

Mewn amgylchiadau arferol, fe fyddwn wedi ysgrifennu atoch yn fuan ar ôl cael Cyllideb Llywodraeth y DU ym mis Mawrth i roi gwybod ichi am gyllid canlyniadol Barnett i Gymru. Ond o fewn cyfnod byr i gyhoeddi Cyllideb y DU, roedd newidiadau pellach i'n setliad ar gyfer 2020-21 o ganlyniad i'r hyn sy'n deillio o gyhoeddiadau gwario Llywodraeth y DU o ran ymyriadau COVID-19 yn Lloegr. Gyda hynny mewn cof, roeddwn yn credu y byddai'n fwy defnyddiol imi ysgrifennu atoch ar ôl paratoi manylion cyfunol y goblygiadau ariannol i Gymru.

Wedi'i amgáu yn Nhabl 1 mae rhestr fanwl o holl gyllid canlyniadol Barnett sy'n deillio o Gyllideb y DU y disgwylir iddynt gael eu derbyn ym Mhrif Amcangyfrifon y DU.

Fel yr amlinellais yn fy natganiad ysgrifenedig ar 11 Mawrth, nid yw'r cyllid ychwanegol ar gyfer Cymru yn ystyried y lleihad cyfalaf o £100m y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud i'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyllideb ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-20. Disgwylir y bydd hyn wedi'i adlewyrchu ym Mhrif Amcangyfrifon y DU a'r gyllideb atodol gyntaf.

Mae Tabl 2 yn rhoi manylion cyllid canlyniadol COVID-19 a gyhoeddwyd ers Cyllideb y DU ac y disgwylir iddynt gael eu derbyn ym Mhrif Amcangyfrifon y DU. Disgwylir y bydd y cyllid canlyniadol pellach yn sgil COVID-19 yn cael eu derbyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn Amcangyfrifon Atodol y DU.

Yn olaf, gallaf gadarnhau nad oedd angen defnyddio pwerau adran 128 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-20.

Rwy'n gobeithio bod y diweddariad hwn o gymorth ichi.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

**Tabl 1: Cyllideb Llywodraeth y DU 2020 – cyllid canlyniadol y disgwylir ei dderbyn ym Mhrif Amcangyfrifon 2020-21**

| **DEL Cyfalaf – Mesur** | **2020-21** |
|---|---|
| | **£m** |
| Ariannu ymchwil 'ragorol', ym mhob rhanbarth a phob gwlad yn y DU | 22.784 |
| Sefydliadau arbenigol | 0.589 |
| Cronfa Fuddsoddi Ddiwylliannol | 2.224 |
| Canolfannau Busnes ac IP y Llyfrgell Brydeinig | 0.012 |
| Cyfleusterau Pêl-droed Parklife | 0.471 |
| Yr Amgueddfa Hanes Naturiol yn Harwell | 0.155 |
| Cronfa Fuddsoddi Ieuenctid | 1.766 |
| Cynnal a Chadw Amgueddfeydd Cenedlaethol | 1.590 |
| Y Llyfrgell Brydeinig yn Leeds a Boston Spa | 0.202 |
| Cronfa *Nature for Climate* | 2.414 |
| Atebion arloesol i dipio anghyfreithlon | 0.029 |
| Amddiffynfeydd rhag llifogydd | 8.242 |
| Cronfa amddiffynfeydd rhag llifogydd y gaeaf | 3.415 |
| Asedau rheoli dŵr | 1.295 |
| Lleihau allyriadau nitrogen deuocsid | 8.654 |
| Cronfa tyllau yn y ffyrdd | 29.437 |
| Parcio ceir mewn ysbytai | 12.728 |
| Cyfalaf DHSC | 40.210 |
| Cynllun Seilwaith Iechyd | 6.123 |
| Diagnosteg | 5.887 |
| NIHR- Atal ac ymchwil drosi | 0.706 |
| COVID-19 R&D - 'Cronfa frwydro' | 1.766 |
| COVID-19 - GIG/PHE Diagnosteg | 0.589 |
| VOA – Rhaglen Drawsnewid System Fusnes | 0.169 |
| Cysgu allan | 2.061 |
| Bargen Ddatganoli Gorllewin Swydd Efrog | 0.559 |
| Cronfa Ddiogelwch Adeiladu | 58.873 |
| Cronfa Dai Tir Llwyd | 4.710 |
| ESA10 | -2.484 |
| Cronfa Newid Lleoedd | 1.766 |
| Cronfa Dreftadaeth (rhan o Fargen Ddatganoli Gorllewin Swydd Efrog) | 1.472 |
| **Cyfanswm Cyfalaf Cyffredinol**[1] | **218.416** |
| | |
| Cymorth i Brynu (FT) | 3.238 |
| Cronfa *Nature for Climate* | 0.412 |
| **Cyfanswm Trafodiadau Ariannol** | **3.650** |

[1] Nid yw hyn yn adlewyrchu'r lleihad o £99.985m y rhoddwyd gwybod amdano ar ddiwedd 2019/20 a'i ohirio tan 2020/21

| DEL Refeniw – Mesur | 2020-21 |
|---|---|
| | £m |
| Diddymu Grant Cynnal Refeniw negyddol yn 2020-21 | 9.002 |
| Cynyddu Cadw Ardrethi Busnes mewn ardaloedd Bargen Ddatganoli ac Awdurdod Llundain Fwyaf (cost AME) | 7.300 |
| Cynyddu Cadw Ardrethi Busnes mewn ardaloedd Bargen Ddatganoli ac Awdurdod Llundain Fwyaf (cost DEL) | 13.011 |
| Gostyngiad manwerthu ardrethi busnes (cost DEL) | 9.125 |
| Gostyngiad manwerthu ardrethi busnes (colled y trysorlys) | 5.593 |
| Gostyngiad tafarndai ardrethi busnes (cost DEL) | 0.648 |
| Gostyngiad tafarndai ardrethi busnes (colled y trysorlys) | 0.380 |
| Y Gordal Iechyd Mewnfudo | -7.428 |
| Cynllun Gwella Rheoleiddio | 0.035 |
| Cyllid Ychwanegol ar gyfer Canolfannau Twf | 0.589 |
| Cyllid Ychwanegol ar gyfer *Be the Business* | 0.294 |
| Cronfa Fuddsoddi Ddiwylliannol | 0.371 |
| Canolfannau Busnes ac IP y Llyfrgell Brydeinig | 0.200 |
| Cronfa Fuddsoddi Ieuenctid | 2.237 |
| Cronfa Effaith Amgylchedd Naturiol | 0.029 |
| Cronfa *Nature for Climate* | 0.500 |
| Amddiffynfeydd rhag llifogydd | 1.472 |
| Cynlluniau cadernid seiliedig ar le | 0.059 |
| Cronfa amddiffyn rhag llifogydd y gaeaf | 3.650 |
| Cynllun Adfer Natur | 0.029 |
| Cyllid Addysg Gorfforol a Chwaraeon | 0.595 |
| Anabledd Dysgu a/neu gronfa Awtistiaeth | 1.189 |
| Recriwtio, hyfforddi a chadw nyrsys y GIG | 37.591 |
| Gweithlu Practis Cyffredinol | 19.758 |
| Parcio Ceir mewn Ysbyty | 4.604 |
| Y Gordal Iechyd Mewnfudo – addasiad DHSC | 9.273 |
| Y Gordal Iechyd Mewnfudo | -2.479 |
| VOA - Rhaglen Drawsnewid System Fusnes | 0.508 |
| Gwneud y gorau o'r asedau gwybodaeth | 0.294 |
| Cysgu Allan | 0.883 |
| Bargen Ddatganoli Gorllewin Swydd Efrog | 1.678 |
| Cronfa Diogelwch Adeiladu | 1.177 |
| Gemau'r Gymanwlad, Masnach, Twristiaeth a'r Rhaglen Fuddsoddi | 0.210 |
| Plant Agored i Niwed a Chanolfannau Teulu | 0.049 |
| Comisiwn am adolygiad economaidd annibynnol ym Mhorth y Gorllewin | 0.006 |
| Oedolion gydag Anghenion Cymhleth Lluosog | 0.353 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **122.787** |
| **Cyfanswm Cyllid Canlyniadol** | **344.853** |

**Tabl 2. Agregau cyllid canlyniadol Barnett a gyhoeddwyd ers cyllideb y DU ar 11 Mawrth yn sgil COVID-19 y disgwylir iddynt gael eu derbyn ym Mhrif Amcangyfrifon y DU**

| **DEL Refeniw – Mesur** | **2020-21** |
|---|---|
| | **£m** |
| **Mesurau sy'n cael eu hariannu yn y Prif Amcangyfrifon o'r gronfa ymateb** | |
| Rhyddhau'n gyflymach o'r GIG | 76.535 |
| Pecyn cymorth awdurdod lleol | 94.197 |
| Prynu capasiti o'r sector annibynnol | 81.245 |
| Gwarchod – pecynnau bwyd | 12.363 |
| Gwarchod – danfoniad o'r fferyllfa ayb | 17.250 |
| Cytundebau Rheoli Brys ar gyfer gwasanaethau rheilffordd (20-21) | 170.733 |
| Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) | 5.887 |
| Canolfan alwadau ar gyfer y Ganolfan Warchod Genedlaethol | 3.270 |
| *Is-gyfanswm* | *461.480* |
| **Mesurau eraill sy'n cael eu hariannu yn y Prif Amcangyfrifon** | |
| Cronfa Galedi Awdurdod Lleol | 29.437 |
| Grantiau Cymorth Busnes (cyfanswm cost) | 730.853 |
| Rhyddhad ardrethi busnes (cyfanswm cost) | 634.537 |
| *Is-gyfanswm* | *1,394.827* |
| | |
| **Cyfanswm ar gyfer cyllid canlyniadol ers cyllideb y DU ar 11 Mawrth yn sgil COVID-19 y disgwylir ei dderbyn ym Mhrif Amcangyfrifon y DU** | **1,856.307** |

UK Government
Llywodraeth y DU

154SOS 20

**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**T:** 0292 092 4216
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

**Llyr Gruffydd AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

9 Ebrill 2020

Annwyl Llyr,

**Covid-19: Cefnogaeth i Gymru**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 23 Mawrth, yn gofyn am ddiweddariad ar ymateb Llywodraeth y DU i'r pandemig COVID-19.

Mae gennym gynllun i ddelio ag effaith y pandemig coronafeirws, sy'n seiliedig ar arbenigedd gwyddonwyr blaenllaw y byd. Ein prif nod yw diogelu pobl rhag y feirws hwn, yn enwedig amddiffyn y GIG a'r sawl sydd fwyaf bregus trwy ddilyn pedwar cam, sef Ynysu, Arafu, Ymchwilio, a Lliniaru.

Rwyf wedi amgáu manylion am ymateb Llywodraeth y DU i'r feirws Covid-19, yn cynnwys manylion am y cymorth sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru. Bydd gwybodaeth lawn am y cyllid canlyniadol Barnett fydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn 2020/21 yn cael ei chyhoeddi trwy'r broses Prif Amcangyfrifon, a bydd data ar dryloywder Grantiau Bloc yn cael ei gyhoeddi yn y gwanwyn.

Gofynnaf os y gallwn ddelio â'ch cais am dystiolaeth lafar ar ddyddiad diweddarach, ac edrychaf ymlaen at gydweithio â'ch Pwyllgor yn y dyfodol.

Cofion gorau,

**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr    1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
London | Llundain    Cardiff | Caerdydd
SW1A 2NP    CF10 4DQ
www.gov.uk/wales    www.gov.uk/cymru

UK Government
Llywodraeth y DU
154SOS 20

**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**T:** 0292 092 4216
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

**<u>Tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar gyfer Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru</u>**

<u>Cyllid i Gefnogi Cymru yn Ystod y Pandemig Covid-19</u>

Mae Llywodraeth y DU wedi gweithredu'n gyflym i roi pecyn cymorth digynsail mewn lle i helpu busnesau ac unigolion yng Nghymru, a ledled y DU, yn ystod y pandemig Covid-19.

Mae Prif Weinidog y DU wedi dweud bydd Llywodraeth y DU yn gwneud beth bynnag sydd ei angen i ennill y frwydr yn erbyn y pandemig. Rydym yn benderfynol ein bod am ddiogelu bywydau a diogelu bywoliaethau. Yn ystod y cyfnod cythryblus hwn, mae Prif Weinidog y DU wedi dweud y byddwn yn cymryd pob cam y gallwn i sicrhau bod busnesau yn cael eu diogelu, bod yr economi yn parhau i fod yn gryf, a bod neb, ni waeth os ydynt yn gyflogedig ynteu'n hunangyflogedig, yn cael eu cosbi am wneud y peth iawn.

Mae'r mwyafrif o fesurau'r Llywodraeth i gefnogi busnesau yn weithredol ledled y DU, yn cynnwys darparu gwerth £330 biliwn o fenthyciadau busnes a gwarantau busnes, talu 80% o gyflogau am gyfnod o dri mis ar gyfer gweithwyr sydd wedi cymryd absenoldeb seibiant, gohirio taliadau TAW a thalu trethi, darparu cefnogaeth i unigolion hunangyflogedig a thalu am gostau tâl salwch statudol.

Rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r prosesau ar gyfer tâl salwch statudol, credyd cynhwysol, a'r lwfans cyflogaeth a chymorth, i sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y system gymorth yn gyflymach ac yn haws, ac rydym wedi cymryd camau brys pellach i sicrhau bod gan fusnesau fynediad at arian i dalu rhent, cyflogau neu gyflenwyr.

Mae Prif Weinidog y DU wedi rhoi cyfarwyddiadau pwysig i orfodi cadw pellter cymdeithasol i leihau lledaeniad y feirws. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn cau'r holl siopau sy'n gwerthu nwyddau dianghenraid, yn cynnwys siopau dillad a siopau nwyddau electronig, i gefnogi'r ymdrech hollbwysig hwn i drechu'r feirws. Mae arweiniad cynhwysfawr wedi cael ei gyhoeddi ynghylch aros gartref a chadw i ffwrdd o bobl eraill, yn cynnwys cyngor ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn gallu gweithio o adref.

Bydd tenantiaid masnachol nad ydynt yn gallu talu eu rhent o ganlyniad i'r coronafeirws yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu troi allan. Bydd mesurau, sy'n rhan o'r Ddeddf Coronafeirws brys yn golygu na fydd unrhyw fusnes yn cael ei droi allan o'i eiddo os ydynt yn methu taliad yn y tri mis nesaf.

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr    1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
London | Llundain    Cardiff | Caerdydd
SW1A 2NP    CF10 4DQ
www.gov.uk/wales    www.gov.uk/cymru

UK Government
Llywodraeth y DU
154SOS 20

**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**T:** 0292 092 4216
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Mae Tŷ'r Cwmnïau yn cynnig estyniad o dri mis i fusnesau sydd wedi'u heffeithio gan y coronafeirws i roi amser iddynt ffeilio eu cyfrifon.

Mae  Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi cefnogaeth ddigynsail ar gyfer busnesau a gweithwyr i'w diogelu rhag yr argyfwng economaidd presennol, yn cynnwys:

- Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, lle bydd cyflogwyr bychain a chyflogwyr mawr yn gymwys i wneud cais am grant llywodraeth lle bo 80% o gyflogau gweithwyr yn cael eu talu i fyny at uchafswm o £2,500 y mis. Bydd y cynllun yn cael ei ôl-ddyddio i'r 1af o Fawrth a bydd ar gael am o leiaf 3 mis, gyda'r grantiau cyntaf yn cael eu talu o fewn wythnosau.

- Gohirio taliadau TAW gan gwmnïoedd ar gyfer y chwarter ariannol nesaf, tan ddiwedd mis Mehefin, sy'n cyfrannu £30 biliwn i'r economi.

- Gwerth £330 biliwn o fenthyciadau i gefnogi busnesau sydd wedi'u cefnogi a'u gwarantu gan y llywodraeth.

- Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig a fydd yn helpu gweithwyr llawrydd cymwys i gael grantiau gwerth hyd at £2,500 y mis am o leiaf tri mis.

Mae'r lefel o gydweithio rhwng yr holl bartïon gwleidyddol a'r pedair llywodraeth yn y DU wedi bod yn anhygoel wrth inni weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r argyfwng hwn. Dyma'r her fwyaf mae'r DU wedi'i hwynebu yn ein hoes ni, ac mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r holl Weinyddiaethau Datganoledig yn gweithio gyda'i gilydd yn esmwyth i ddarparu'r arweinyddiaeth y mae'r wlad hon ei hangen ac yn ei disgwyl. Rydym wedi gweithredu ar gyflymder digynsail oherwydd y gwyddwn bod angen cymorth ar frys ar fusnesau, cymunedau ac unigolion fel ei gilydd.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU nifer o raglenni a oedd yn berthnasol i Loegr yn unig yng Nghyllideb 2020 i ymateb i'r pandemig COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cronfa caledi ariannol i awdurdodau lleol;
- Cynllun rhyddhau ardrethi busnes;
- Grantiau o £3,000 ar gyfer busnesau bychain; a
- Cronfa ymateb gwerth £5 miliwn i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus.

UK Government
Llywodraeth y DU

154SOS 20

**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**T:** 0292 092 4216
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Roedd y gronfa ymateb i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys ariannu:

- Gwell rhyddhau o'r GIG/gwaharddiadau o brawf modd;
- Pecyn cymorth COVID ar gyfer awdurdodau lleol;
- Prynu capasiti gofal iechyd yn y Sector Breifat; a
- Gwarchod, yn cynnwys pecynnau bwyd ac elfennau o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn dilyn cyhoeddiad y Gyllideb, mae nifer o raglenni ac ychwanegiadau i'r uchod wedi cael eu cyhoeddi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Grantiau cefnogi busnes estynedig (£10,000); a
- Cynllun rhyddhau ardrethi busnes estynedig, yn cynnwys ar gyfer methrinfeydd a busnesau manwerthu nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai hanfodol.

O ganlyniad i'r uchod, mae Llywodraeth y DU wedi darparu dros £5.3 biliwn i'r gweinyddiaethau datganoledig trwy'r broses Barnett yng nghyswllt COVID-19, yn cynnwys £2.73 biliwn ar gyfer Llywodraeth Yr Alban, £1.65 biliwn ar gyfer Llywodraeth Cymru a £0.92 biliwn ar gyfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Bydd gwybodaeth bellach am y cyllid canlyniadol Barnett a ddarperir i Lywodraeth Cymru yn 2020/21 yn cael ei chyhoeddi trwy'r broses Prif Amcangyfrifon a bydd Tryloywder Grantiau Bloc yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y gwanwyn.

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr    1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
London | Llundain    Cardiff | Caerdydd
SW1A 2NP    CF10 4DQ
www.gov.uk/wales    www.gov.uk/cymru

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

13 Mai 2020

Annwyl Llyr

Rwy'n ysgrifennu i ddwyn sylw'r Pwyllgor at newid arfaethedig y Comisiwn i'w gyllideb gymeradwy ar gyfer 2020-21, trwy broses y Gyllideb Atodol. Mae'r Comisiwn yn cynnig lleihau ei gyllideb adnoddau gan £1.836 miliwn. Nid oes unrhyw newid arfaethedig i'w ofyniad arian parod net ar gyfer 2020-21.

**Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi**

Fel y nodwyd yng nghyllideb 2020-21 y Comisiwn, a osodwyd ym mis Tachwedd 2019, rhagwelwyd y byddai Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi, sy'n safon adrodd ariannol newydd, yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020.

Roedd cyllideb y Comisiwn yn adlewyrchu rhoi Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi ar waith ar 1 Ebrill 2020. Newidiodd hyn gyllideb y Comisiwn yn sylweddol. Cafodd dwy golofn eu cynnwys yn nogfen y gyllideb yn dangos effaith y safon newydd, a gynyddodd y gofyn o ran adnoddau'r Comisiwn gan £1.836 miliwn. Ni chynyddwyd gofyniad arian parod net y Comisiwn yn sgil Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi.

Ym mis Mawrth 2020, hysbyswyd y Comisiwn gan Drysorlys EM ei bod wedi cytuno gyda'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol i ohirio rhoi Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi ar waith tan 1 Ebrill 2021. Gwnaed hyn yn sgil Covid-19.

Nid yw Cyllideb 2020-21 y Comisiwn, felly, yn gofyn am addasiad ar gyfer Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi. Mae angen cyllideb atodol ar gyfer 2020-21 i wyrdroi'r newidiadau a wnaed i adlewyrchu rhoi Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 ar waith yn 2020-21.

Bydd y gyllideb atodol yn diwygio'r gyllideb a osodwyd er mwyn dangos ffigurau "cyn Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16". Cyfanswm cyllideb ddiwygiedig y Comisiwn ar gyfer 2020-21, felly, fydd **£59.575 miliwn.** Bydd y gofyniad arian parod yn parhau i fod yr un fath, sef £ 56.075 miliwn.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Cysylltu@senedd.cymru
0300 200 6565


**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Mae'r Comisiwn, felly, yn cynnig Cyllideb Atodol ar gyfer ei Gyllideb Adnoddau weithredol o £41.303 miliwn, sy'n ostyngiad o'r swm gwreiddiol, sef £43.139 miliwn. Mae'r effaith ar gyllideb gyffredinol y Comisiwn ar gyfer 2019-20 wedi'i dangos yn y tabl isod:

| | Cyllideb Gymeradwy £m | Cyllideb Atodol a gynigir £m | Cyllideb Ddiwygiedig a gynigir £m |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Adnoddau | £43.139 | -£1.836 | £41.303 |
| Cyllideb yr Aelodau | £16.172 | - | £16.172 |
| Cyllideb Etholiad | £0.500 | - | £0.500 |
| Cyllideb y Gwariant a Reolir yn Flynyddol | £1.600 | - | £1.600 |
| Cyfanswm | £61.411 | -£1.836 | £59.575 |

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32, ar ôl i'ch Pwyllgor ystyried y cais hwn, bydd y Comisiwn yn gosod memorandwm esboniadol yn nodi'r cais hwn am y Gyllideb Atodol. Mae copi o'r memorandwm esboniadol hwn ynghlwm er hwylustod i chi. Rhowch wybod i mi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir



Suzy Davies
cc Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cyllideb Atodol 2020-21:** Memorandwm Esboniadol

Mai 2020





www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@Senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCymru**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cyllideb Atodol 2020-21:** Memorandwm Esboniadol

Mai 2020



www.senedd.cymru



# Cynnwys

**1. Cefndir** ........ 6
**1.1. Memorandwm Esboniadol** ........ 6
**1.2. Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi** ........ 6
**1.3. Effaith ar y Gyllideb** ........ 7
**2. Cwmpas y Gyllideb** ........ 8

# 1. Cefndir

Cafodd **Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2020-21** ei chynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Tachwedd 2019, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

Roedd cynnig y gyllideb yn rhoi £61.411 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn, sef:

- £43.139 miliwn ar gyfer gwasanaethau'r Senedd;
- £16.172 miliwn ar gyfer cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau o'r Senedd; a
- £0.500 miliwn ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag etholiad.

Darparwyd £1.600 miliwn ychwanegol ar gyfer addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd, a hynny drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Gosodir y Memorandwm Esboniadol hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.32, gan gefnogi newidiadau i'w cynnig i gyllideb gymeradwy'r Comisiwn, drwy Gynnig y Gyllideb Atodol.

## 1.1 Memorandwm Esboniadol

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd lleihau cyllideb Gwasanaethau'r Senedd yn unol â'r hysbysiad a gafwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi ei fod wedi cytuno â'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol i ohirio rhoi Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi ar waith tan 1 Ebrill 2021.

## 1.2 Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi

Ar adeg gosod cyllideb y Comisiwn ym mis Tachwedd 2019, roedd yn ofynnol i'r Comisiwn fabwysiadu Safon Gyfrifyddu newydd – Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – gan ddod i rym o'r flwyddyn ariannol 2020-21.

Mae'r safon newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrif am bob prydles mewn modd cyson. Yn flaenorol, ni chydnabuwyd prydlesi a ddosbarthwyd fel "prydlesi gweithredol" ac adroddwyd eu bod "oddi ar y fantolen". Mae'r newid hwn yn effeithio'n bennaf ar sut yr ymdrinnir â phrydles adeilad Tŷ Hywel ym Mae Caerdydd, sy'n gartref i fwyafrif staff y Comisiwn.

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16, fel yr adlewyrchir yng nghyllideb 2020-21 y Comisiwn, yn arwain at gynnydd yn y taliadau dibrisiant a chyllid llog. Caiff y taliadau hyn eu gwrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad yn y gost o rentu swyddfa a ddangosir yn y gyllideb. Roedd cyllideb gyffredinol y Comisiwn wedi cynyddu o'i chymharu â ffigurau cyn Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16.

Fodd bynnag, nid oedd y newidiadau hyn – fel y dangosir yn y ddogfen gyllideb a osodwyd – wedi cynyddu'r gofyniad o ran arian parod gan Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd y gost rhentu arian parod yr un fath, ond dangoswyd bod y cyflwyniad cyfrifyddu yn wahanol. Ychwanegwyd colofnau ychwanegol at y tablau yn Atodiad 1 dogfen y gyllideb i ddangos y symudiad yng nghyllideb y Comisiwn, cyn ac ar ôl addasiadau Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16.

Ym mis Mawrth 2020, hysbyswyd y Comisiwn gan Drysorlys EM ei bod wedi cytuno gyda'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol i ohirio rhoi Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi ar waith tan 1 Ebrill 2021. Gwnaed hyn yn sgil Covid-19.

Mae hyn yn golygu na fydd angen addasu Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2020-21 o ran Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16. O ganlyniad, cyflwynir y Gyllideb Atodol hon i wyrdroi'r newidiadau a wnaed i adlewyrchu'r ffaith bod Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 wedi cael ei roi ar waith yn 2020-21.

Bydd y gyllideb atodol erbyn hyn yn diwygio'r gyllideb a osodwyd er mwyn dangos ffigurau cyn Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16. Cyllideb ddiwygiedig y Comisiwn ar gyfer 2020-21, felly, fydd **£59.575 miliwn,** sy'n llai na'r gyllideb ôl-Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16, sef **£ 61.411 miliwn**. Bydd y gofyniad arian parod yn parhau i fod yr un fath, sef £ 56.075 miliwn.

Mae'r Comisiwn, felly, yn cynnig cyllideb atodol o ganlyniad i'r newid yn y dyddiad ar gyfer rhoi Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 – Prydlesi ar waith, sef £59.575 miliwn.

## 1.3 Effaith ar y Gyllideb

Mae Cynnig y Gyllideb Atodol yn cynnig yr hyn a ganlyn:

- gostyngiad yng nghyllideb Gwasanaethau'r Senedd o £1.836 miliwn, i £59.575 miliwn.

# 2. Cwmpas y Gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 y Senedd i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb sy'n ofynnol yn ôl Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Senedd o ran adnoddau a gofynion y gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021.

Mae Cynnig y Gyllideb Atodol yn awdurdodi defnyddio'r adnoddau net ar gyfer gwasanaethau a dibenion yr Aelodau a Gwasanaethau'r Senedd. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net y rhagwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod eu talu.

Nodir cyllideb ddiwyiedig 2020-21 Comisiwn y Senedd, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion diwygiedig, yn Nhabl 1 isod.

| Tabl 1 | Diwygiedig £ 000 |
|---|---|
| Adnoddau ar wahân i adrnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Senedd ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn.<br>Adnoddau heblaw am adnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd. | 59,575 |
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn.<br>▪ o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu<br>▪ incwm rhent; rhoddion; grantiau; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Senedd. | 220 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn o ran y gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei hadennill. | 56,075 |

Mae tabl 2 isod yn cysoni'r gofyniad adnodd net â'r gofyniad i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

| **Tabl 2: Gofyniad arian parod** | **£'000<br>2020-21<br>Wedi'i adolygu** |
|---|---|
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau | 16,172 |
| Gwariant yn ymwneud ag etholiadau | 500 |
| Gofyniad refeniw net y Comisiwn | 40,803 |
| Gofyniad cyfalaf net | 500 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 1,600 |
| **Is-gyfanswm** | **59,575** |
| **Addasiadau** | |
| Dibrisiant | (2,250) |
| Newidiadau mewn darpariaethau | (1,600) |
| Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr | 350 |
| **Is-gyfanswm** | **(3,500)** |
| **Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru** | **56,075** |

# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

## Cyllideb Atodol 2020-21

## Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

### Cefndir

Bu’r Amcangyfrif ar gyfer 2020/21 yn destun craffu gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref 2019 a’i gynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol ym mis Rhagfyr 2019.

Yn y ddogfen cyflwyno Amcangyfrifon, roedd cyfeiriadau at weithredu'r safon gyfrifyddu newydd, IFRS16. Mae honno bellach wedi'i gohirio am 12 mis.

Roedd Atodiad A y cyflwyniad gwreiddiol yn cynnwys dau gynnig cyllideb - un yn cynnwys effeithiau IFRS16 ac un yn eithrio effeithiau IFRS16. Cymeradwywyd y gyllideb a oedd yn cynnwys effaith IFRS16. Oherwydd y bu rhaid gohirio mabwysiadu IFRS16, bwriedir dychwelyd i gyllideb sy’n eithrio IFRS16 - ar y cyfan, mae'r newidiadau yn fân:

| | |
|---|---|
| Adnodd | -£16k |
| Arian Parod | Dim newid |

Nid oes unrhyw newidiadau eraill wedi'u cynnig yn y Gyllideb Atodol hon fel sydd wedi’i hatodi yn Atodiad A.

## Atodiad A

| Gwariant OGCC | 2020-21 £000s Y gyllideb ddiwygiedig - arfaethedig | 2020-21 £000s Y gyllideb a gymeradwywyd yn flaenorol | 2020-21 £000s **Newidiadau** yn y Gyllideb Atodol - oherwydd gohirio gweithredu IFRS16 |
|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | £3,889 | £3,889 | 0 |
| Eiddo a chyfleusterau | £425 | £202 | +223 |
| Ffioedd proffesiynol | £280 | £280 | 0 |
| Costau TGCh | £190 | £190 | 0 |
| Costau swyddfa | £118 | £98 | +20 |
| Teithio, hyfforddi a recriwtio | £90 | £90 | 0 |
| Cysylltiadau | £50 | £50 | 0 |
| Costau untro pwerau newydd (refeniw) | £0 | £0 | 0 |
| Cyfanswm Gwariant Refeniw | £5,042 | £4,799 | +243 |
| Cyfanswm Incwm | -£17 | -£17 | 0 |
| Gwariant Refeniw Net | £5,025 | £4,782 | +243 |
| Gwariant Cyfalaf | £25 | £25 | 0 |
| Costau untro ar bwerau newydd (Cyfalaf) | £0 | £0 | 0 |
| Cyfanswm Adnoddau Gweithredol | £5,050 | £4,807 | +243 |
| Symudiadau nad ydynt yn Arian Parod | | | |
| Dibrisiant | £60 | £60 | 0 |
| Dibrisiant – asedau wedi'u prydlesu | 0 | £249 | -249 |
| Tâl cyllido – IFRS 16 | 0 | £10 | -10 |
| Cyfanswm Gwariant Adnoddau | £5,110 | £5,126 | -16 |
| Dibrisiant – cyfanswm | -£60 | -£309 | +249 |
| Tâl cyllido – IFRS 16 | 0 | -£10 | +10 |
| Newid mewn cyfalaf gweithio – IFRS 16 | 0 | £243 | -243 |
| Symudiadau eraill nad ydynt yn arian parod | £20 | £20 | 0 |
| Gofynion Arian Parod gan WCF | £5,070 | £5,070 | 0 |

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon